# Llythrennedd

## Pwyntiau defnyddiol i'ch cynorthwyo yn y cartref

| 10 Pwynt i'ch helpu gyda darllen | 10 pwynt i'ch helpu gydag ysgrifennu | 10 pwynt i'ch helpu gyda sillafu |
|---|---|---|
| • Gwnewch ddarllen yn hwyl! Sicrhewch fod pob profiad darllen yn un i'w fwynhau.<br>• Derbyniwch a chlodforwch ymdrech eich plentyn i ddarllen, yn enwedig wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd a brawddegau heriol.<br>• Gwnewch eich amser darllen yn amser arbennig, pan fedrwch fwynhau darllen gyda'ch gilydd.<br>• Anogwch eich plentyn i ddarllen gyda chi pan fyddwch yn darllen straeon cyfarwydd.<br>• Darllenwch ystod eang o destunau! Mae darllen yn ymwneud â llyfrau a llawer mwy- arwyddion, hysbysebion, papurau newydd, rhestrau, ryseitiau…..<br>• Trafodwch lyfrau yr ydych yn eu mwynhau, (gan gynnwys y llyfrau y gwnaethoch chi eu mwynhau pan oeddech yn blentyn.)<br><br>....ac ar gyfer darllenwyr profiadol:-<br><br>• ·Byddwch yn falch o lwyddiant eich plentyn.<br>• Anogwch eich plentyn i fynychu'r llyfrgell yn rheolaidd,<br>• Rhowch lyfrau yn anrhegion<br>• Anogwch eich plentyn i drafod llyfrau y maent wedi eu darllen a'u mwynhau. | • Ysgrifennwch restrau gyda'ch gilydd - e.e. rhestrau siopa.<br>• Ysgrifennwch gardiau i deulu a ffrindiau.<br>• Gadewch nodiadau i'ch plentyn ac anogwch ef/hi i wneud yr un peth e.e. (Cofia dy focs brechdanau!)<br>• Ysgrifennwch a gwiriwch y rhifau loteri.<br>• Ysgrifennwch lythyron i deulu a ffrindiau.<br>• Ysgrifennwch gardiau post pan ar eich gwyliau a hyd yn oed pan ewch ar deithiau diwrnod.<br>• Cofnodwch negeseuon e.e. negeseuon ffôn<br>• Canmolwch ymdrechion eich plentyn.<br><br>....ac ar gyfer ysgrifenwyr profiadol:-<br><br>• Anogwch eich plentyn i ysgrifennu - llythyron i ffrindiau, teulu, y papur newyddion, llythyron yn holi am wybodaeth a chreu cyweithiau bychain ynglŷn â'i diddordebau/ddiddordebau.<br>• Anogwch eich plentyn i gwblhau croeseiriau, posau geiriol ag ati. | • Canmolwch bob ymdrech i sillafu gair.<br>• Anogwch eich plentyn i geisio sillafu gair.<br>• Anogwch eich plentyn i gasglu geiriau am bethau sydd o ddiddordeb iddynt – gallant gasglu geiriau o eiriaduron, o'r amgylchfyd, o'r cyfrifiadur ag ati.<br>• Trafodwch ystyr geiriau – rhowch gymorth iddynt i ddefnyddio geiriadur er mwyn darganfod ystyr gair.<br>• Anogwch eich plentyn i ddefnyddio'r dull Edrych - Cuddio-Ysgrifennu-Gwirio<br>• Anogwch eich plentyn i chwilio am y sillafau yn y gair. Mae hyn yn gymorth i sylweddoli sut y mae geiriau yn cael eu ffurfio.<br>• Canmolwch ymdrechion eich plentyn mewn profion sillafu.<br><br>.....ac ar gyfer sillafwyr profiadol:-<br><br>• Anogwch eich plentyn i ddarllen ei waith/gwaith yn ofalus a thanlinellu unrhyw eiriau nad yw'n sicr ohonynt.<br>• Anogwch eich plentyn i gwblhau croeseiriau a phosau.<br>• Anogwch eich plentyn i ddefnyddio geirfa newydd ac anghyfarwydd yn ei waith/gwaith. |